# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd C E Smith** **Ward:Llangewydd a Brynhyfryd**

## Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llangewydd a Brynhyfryd ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 64 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 64 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill.

Mae gennyf dudalen Facebook ar gyfer y ward (Charles 4 Llangewydd and Brynhyfryd) ac rwy'n cynnal cymhorthfa reolaidd (argymhellir eich bod yn trefnu apwyntiad) yng Nghanolfan Gymunedol Westward, fel arfer am 9.30 am ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis. Ceir fy manylion cyswllt ar wefan CBSP.

Rwy'n byw yn y ward, ac rwyf wedi byw yno ers y 1970au, felly rwy'n berson hawdd mynd ato, ar gael a gerllaw ar gyfer trafodaethau anffurfiol neu gyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r cyngor. Rwy'n aml yn cael fy ngweld yn cerdded neu'n beicio o amgylch y ward, ac rwy'n defnyddio ein gwasanaeth bws lleol yn rheolaidd (cylch Cefn Glas, llwybrau 68 a 69).

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n danfon yn bersonol â llaw gerdyn Nadolig ac o leiaf un cylchlythyr i bob cartref yn y ward bob blwyddyn, ac mae hyn yn sicrhau eich bod yn cael nodyn atgoffa am fy manylion cyswllt, ac rwy'n gallu edrych yn fanwl ar bob stryd yn yr ardal.

Yn ogystal, ychydig yn ôl, danfonais lythyr personol yn hysbysu pawb yn y ward am ddatblygiad tai newydd oddi ar Barnes Avenue. Mae'r mater hwn yn barhaus, a chyda chynghorwyr lleol eraill rwy'n cadw llygad agos iawn arno, yn enwedig o ran materion traffig a diogelwch ar y ffyrdd.

Rwy'n gefnogwr cryf Canolfan Gymunedol Westward, ac yn mynd i sesiynau prynhawn dydd Gwener y grŵp "Young at Heart" i bobl dros 50 oed pryd bynnag y gallaf. Rwyf hefyd yn un o lywodraethwyr Ysgol Fabanod Cefn Glas, yr aeth fy mab a'm merch iddi rai blynyddoedd yn ôl.

Mae cynghorwyr ward wedi cael cyllideb eleni i gefnogi sefydliadau lleol. Hyd yma rwyf wedi defnyddio fy nyraniad i gyfrannu tuag at gegin newydd yng Nghanolfan Gymunedol Westward, gweithgareddau gweithdai i'r Clwb Young at Heart, a gwaith amgylcheddol yn yr awyr agored yn Ysgol Iau Llangewydd. Rwy'n aros am geisiadau gan y Sgowtiaid a'r Cybiau ac Ysgol Fabanod Cefn Glas.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Fel Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio rwyf wedi cyfrannu at nifer o fentrau polisi mawr. Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i gynghorwyr fynd ati i gynrychioli eu cymuned leol, a dyna fy mlaenoriaeth gyntaf bob amser. Credaf y dylai'r cyngor bwrdeistref sirol gydweithio'n agos â chynghorau tref a chymuned, ac rwy'n credu bod moderneiddio a chynnal a chadw ein meysydd chwarae plant lleol, a diogelu ein mannau agored, yn enghreifftiau da o gydweithio o'r fath, gyda chanlyniadau gweladwy a chadarnhaol

**Y Cynghorydd Charles Smith** **Dyddiad: 31.5.18**